# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro – Interim Managing Director

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR PENODIADAU** | **APPOINTMENTS COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 9 EBRILL 2013 am 9.00 o'r gloch** | **TUESDAY, 9 APRIL, 2013 at 9.00 a.m.** |
| **SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol Gwreiddiol/Original Independent**

Keith Evans, Eric Jones, B Owen, G O Parry MBE a Ieuan Williams

**Llafur / Labour**

Raymond Jones

**Llais i Fôn**

T H Jones

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Mrs Fflur Hughes a Vaughan Hughes

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

Sedd Wag/Vacant Seat

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 19 Mawrth, 2013.

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynglwm."

4 **YSTYRIAETHAU STRWYTHUR PENAETHIAID GWASANAETH** (Tudalennau 3 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

# PWYLLGOR PENODI

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Bryan Owen – Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr Keith Evans, Mrs. Fflur M. Hughes, Vaughan Hughes, Eric Jones, Raymond Jones, T.H. Jones, G.O. Parry MBE, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2012 fel rhai cywir.

**YN CODI O'R COFNODION**

**Eitem 4 – Penodiadau Staff – Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**

Llongyfarchwyd Miss Clare J. Williams gan un o'r Aelodau ar gael ei phenodi i swydd Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ond gofynnodd am ragor o wybodaeth ynghylch a oedd amserlen wedi ei phennu i fonitro ymrwymiad Miss Williams i wella ei sgiliau iaith Gymraeg a holodd hefyd pwy fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r dasg honno yn yr Awdurdod.

Yn ei hymateb dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod llythyr wedi ei anfon at yr ymgeisydd llwyddiannus ond nad oedd yr ohebiaeth yn dweud sut y byddai'r monitro hwnnw'n digwydd. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelod y byddai'r mater yn cael ei godi gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Aelod dan sylw.

**3 CAU ALLAN Y WASG**

Dan Adran (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cafodd y wasg a'r cyhoedd eu hanfon allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym Mharagraff 12y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

**4 ADOLYGU STRWYTHUR PENAETHIAID GWASANAETH**

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr - mai rhan allweddol o'r Cynllun Trawsnewid oedd adolygu strwythur Penaethiaid Gwasanaeth yn unol â'r blaenoriaethau sy'n codi o'r Cynllun a'r ffordd y byddai'n rhaid i'r Cyngor weithredu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny dros dymor y Cyngor nesaf ar ôl Mai 2013.

Ailddylunio'r Strwythur Penaethiaid Gwasanaeth oedd cam nesaf y broses. Roedd yr adroddiad yn nodi'r achos dros newid, egwyddorion dylunio, ystyriaethau allweddol, y strwythur arfaethedig newydd (gyda rhesymeg), a manylion ynghylch gweithredu'r Strwythur newydd ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth.

Esboniodd y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor fod y cyfarfod hwn wedi ei drefnu fel cyfle i'r Aelodau wneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad drafft. Yn dilyn yr adroddiad heddiw, bwriedir cynnal cyfarfod arall o'r Pwyllgor Penodi mewn pythefnos i roi sylw i ddogfen ddiwygiedig, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a godir heddiw.  Y bwriad felly oedd i'r Pwyllgor hwn wneud argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a gynhelir ar 15 Ebrill, a fyddai wedyn yn gwneud argymhelliad ar gyfer Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir ar 16 Ebrill 2013.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad drafft a nodi hefyd y bydd adroddiad terfynol yn nodi'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod heddiw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Penodi mewn cyfarfod yn gynnar ym mis Ebrill.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:25 p.m.

**Y CYNGHORYDD BRYAN OWEN**
**CADEIRYDD**

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank